

CANLLAWIAU CYSTADLEUAETH GWAREDU BVD

ENNILL £500 GYDA GWAREDU BVD, BOEHRINGER INGELHEIM!

Gallwch chi helpu i ledaenu'r neges i waredu BVD o Gymru ac ennill £500 yn y broses diolch i Allflex a Boehringer Ingelheim. Diddordeb? Wrth gwrs bod e!

Mae'n hawdd cymryd rhan - dim ond creu hysbyseb ddigidol sy'n annog ffermwyr gwartheg Cymru i gymryd rhan yn y cynllun Gwaredu BVD. Gall hyn fod o unrhyw ongl o'r rhaglen, o brofion hyd at Ymlid Haint Parhaus. Gallwch fod mor greadigol ag y dymunwch a'i anfon atom ar Facebook a/neu Twitter i fod â siawns o ennill £500 a chael sylw ar wefan Gwaredu BVD.

Sut i gystadlu:

1. Creu hysbyseb ddigidol sy'n hyrwyddo rhaglen Gwaredu BVD

- Gallai'r hysbyseb ddigidol fod yn boster statig, fideo, sioe sleidiau, tysteb ffermwr a mwy - byddwch yn greadigol! Dylai cynllun y llun fod ar draws (tirlun). Argymhellir cymhareb 16:9 fel ei fod yn cyd-fynd â sgriniau digidol heb docio nac ymestyn eich gwaith.

2. Cynnwys negeseuon allweddol rhaglen Gwaredu BVD o gylch y pwnc rydych chi'n ei ddewis

- Cofiwch y bydd eich hysbyseb ddigidol yn cael ei gweld gan ffermwyr ledled Cymru a dylai eu hannog i ymuno â Gwaredu BVD.
- Pynciau yr hoffech chi ganolbwyntio arny'n nhw o bosib: Sgrinio Stoc Ifanc, Ymlid Haint Parhaus, Gwaredu BVD a mwy.
- Gall y ceisiadau fod yn Gymraeg, Saesneg neu ddwyieithog.

3. Y mwyaf creadigol... y gorau!

- Mae yna lawer o apiau a gwefannau golygu am ddim i helpu i ddod â'ch hysbyseb ddigidol yn fyw.

4. Ar ôl i chi greu eich hysbyseb ddigidol, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei chyflwyno cyn y dyddiad cau ddydd Llun 13eg Ebrill 2020. Gallwch ei chyflwyno trwy:

- Postio'ch hysbyseb ddigidol ar Facebook gan dagio Gwaredu BVD yn y neges
- Trydar eich hysbyseb ddigidol gan ddefnyddio'r hashnod #gwaredubvd a thagio @gwaredubvd yn y neges

Peidiwch ag anghofio, bydd eich hysbyseb yn cael ei barnu yn ôl:

- Negeseuon allweddol a thechnegau perswadio;
- Creadigrwydd;
- Y defnydd o dystebau ac ymchwil gwreiddiol.

Cyhoeddir yr enillwyr ddydd Sadwrn 18 Ebrill yn Niwrnod Maes CFFI Cymru yn Rhuthun. Bydd y ceisiadau buddugol yn cael eu hyrwyddo ar draws cyfryngau cymdeithasol a gwefan Gwaredu BVD yn ogystal ag ar sgriniau digidol mewn canolfannau milfeddygon ledled y wlad.

Awgrymiadau!

Dyma rai negeseuon efallai yr hoffech chi sôn amdanyn nhw ...

Mae Gwaredu BVD yn cael ei arwain gan ddiwydiant ac nid gan y llywodraeth. Nid yw profi eich buches am BVD yn orfodol, ond mae posibilrwydd uchel y bydd yn dod yn gyfraith gan Lywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a dyna pam yr ydym yn argymhell profi eich buchesi nawr.

Gall milfeddygon brofi am BVD wrth iddynt brofi'r fuches am TB. Mae'n brawf gwaed syml, a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu cyn pen pedwar diwrnod ar ôl y profion.

Mae buddion profi am BVD yn cael mwy o effaith gadarnhaol i'r ffermwyr - gall helpu i atal y broblem yn ogystal â sicrhau fferm fwy proffidiol yn y tymor hir.

Dyma'r unig raglen sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol ac ariannol i filfeddygon a ffermwyr - manteisiwch arni cyn ei bod hi'n rhy hwyr!

Mae dros 8000 allan o 11,000 o ffermydd yng Nghymru wedi cael eu sgrinio am BVD hyd yn hyn.

Mae'n hanfodol bod Ymlid Haint Parhaus yn cael ei wneud ar ffermydd y canfyddir eu bod yn BVD-positif a bod HPau yn cael eu lladd er mwyn atal difrod pellach i'r fferm.

Peidiwch ag anghofio gwneud eich gwaith cartref ... ewch i www.ahww.cymru i gael y wybodaeth, y newyddion a'r gefnogaeth ddiweddaraf ar Waredu BVD.